CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

*Cadeirydd /*Chairman:
Revd Canon Edward J Evans

Y*sgrifennydd*/Secretary:
Paula Webber
23, Bryngwyn Road,
Newbridge, NP11 4GX

e-bost/e-mail: Paula.WebberConsultancy@gmail.com
ffôn/ tel : 07540 172596

30 Ionawr 2018

Annwyl Glerc CYSAG,

Yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfod diwethaf Cymdeithas CYSAGau Cymru ym mis Tachwedd, gofynnwyd i mi ysgrifennu at GYSAGau ynghylch y posibilrwydd o benodi Clerc y Cofnodion i'r Gymdeithas.

Crëwyd swydd Clerc y Cofnodion i gefnogi gwaith Ysgrifennydd CCYSAGauC yn y cyfarfodydd hyn. Mae'n hanfodol fod gan yr ymgeisydd wybodaeth am y byd addysg ac yn arbennig rhywfaint o wybodaeth am addysg grefyddol a CYSAG. Nid oes angen profiad blaenorol o gymryd cofnodion; fodd bynnag rhaid i'r ymgeisydd feddu ar lefel dda o sgiliau llythrennedd a mynediad at e-bost. Gofynion y swydd fyddai mynychu pob un o brif gyfarfodydd y Gymdeithas a chyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith bob blwyddyn, sef 6 i gyd, a chymryd y cofnodion a'u hanfon allan wedyn. Caiff y prif gyfarfodydd eu cynnal mewn gwahanol leoliadau ar draws Cymru gyfan ac mae cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith fel arfer yn cael eu cynnal yng Nghaerdydd a Llandrindod. Ceir tâl o £1500.00 (+ treuliau) am wneud y gwaith hwn, sy'n cael ei dalu drwy siec mewn un taliad bob blwyddyn.

Mae CCYSGauC yn chwilio am rywun sy'n fodlon rhoi o'u hamser i fynychu'r cyfarfodydd a chynhyrchu'r cofnodion gan weithio ochr yn ochr â'r Ysgrifennydd fel bo angen. Byddai aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn ddiolchgar iawn pe gallech rannu'r wybodaeth hon â'ch CYSAG lleol, eich awdurdod lleol, a chysylltiadau ehangach a gofyn iddynt ystyried y cais hwn. Os gallwch gynnig enw ar gyfer swydd Clerc Cofnodion y Gymdeithas, cysylltwch ag Ysgrifennydd CCYSAGauC drwy'r e-bost ar ben y llythyr hwn gyda manylion yr ymgeisydd.

Diolch am eich cefnogaeth, ac edrychaf ymlaen at glywed gennych.
Dymuniadau gorau,

Paula Webber
Ysgrifennydd CCYSAGauC